

# Saskia de Groot

**Teitl Swydd:** Dadansoddydd Ansicrwydd, Canolfan Eigioneg Genedlaethol  
**Cymwysterau:** Dosbarth Cyntaf mewn Mathemateg (Prifysgol Rhydychen)

Dysgodd fy ngradd israddedig i mi sut i feddwl mewn ffordd resymegol iawn a mwynheais yn fawr ganfod harddwch mathemateg bur. Roeddwn wrth fy modd gyda'r syniad o ddyfeisio byd haniaethol a oedd yn ufuddhau i gyfreithiau penodol, ac a oedd ar yr un pryd yn sylfaen i'r byd go iawn rydym yn byw ynddo.

Fodd bynnag, pan ddaeth hi'n amser i mi ddewis maes ymchwil ar gyfer fy PhD, roedd y gwyddorau cymhwysol i weld yn fwy perthnasol ac o'r herwydd yn ddeniadol. Treuliaf y diwrnod yn gweithio ar fy mhen fy hun ac yn cydweithio â chydweithwyr, yn datblygu modelau ar gyfer esblygiad genomau firaol, sydd yn gyffredinol yn golygu llawer iawn o ddarllen, rhaglennu a sgriblo ar y bwrdd du. Yn ddiweddar

rwyf hyd yn oed wedi cyflwyno erthygl fel prif awdur.

Rwyf yn mwynhau'n fawr iawn gwneud fy PhD, oherwydd mae ymchwil yn dysgu set gyfan newydd o sgiliau i chi i'r rhai a gawsoch ar eich cwrs gradd israddedig: meddwl yn annibynnol, cyfathrebu, cydweithio ac yn fwy na dim hunan ddisgyblaeth. Mae'n caniatáu i chi reoli eich amser a'ch rhaglen waith eich hun – cymerais ddau fis i ffwrdd, hyd yn oed, i gyfranogi, ac yn y pen draw ennill, y sioe realiti deledu Sianel 4 o'r enw "The Search"! Roedd rhaid i ni deithio o amgylch y byd yn datrys cliwiau a chracio codau, a gan fod gen i gefndir mathemategol, gwelais sut oedd hyfforddiant dadansoddi yn fy helpu'n fawr tuag at ennill. Er na wna' i aros yn y byd academaidd, mae'n debyg, rwyf

*"Mathemateg yn wir yw'r harddaf o blith y gwyddorau - yn fy marn i!"*

yn dal i feddwl fod y set o sgiliau rwyf wedi eu dysgu yn ystod fy amser fel mathemategydd yn ased amhrisiadwy ar gyfer parhau gydag unrhyw lwybr gyrfa, o'r bron. A dyma yw'r harddaf o blith y gwyddorau – yn fy marn i!

# Saskia de Groot

**Job Title:** PhD Student in Bioinformatics


**Qualifications:** BA (Hons 1st class) Mathematics (University of Oxford), MMath

**My undergraduate degree taught me how to think in a very logical way and I really enjoyed discovering the beauty of pure maths. I loved the idea of devising an abstract world which obeyed certain laws and was, simultaneously, the very basis of the real world we live in.**

However, when the time came to choose an area of research for my PhD, the applied sciences seemed more relevant and thus attractive. I spend my day working by myself and in collaboration with colleagues, developing models for the evolution of viral genomes, which generally involves a lot of reading, programming and blackboard scribbling. I have even recently submitted an article as a first author.

I very much enjoy doing a PhD since research teaches you a whole new set of skills from those you learn in an undergraduate degree: independent thought, communication, collaboration and, most of all, self discipline. It allows you to manage your time and work layout yourself – I even took two months out to participate in, and subsequently win, the Channel 4 reality TV show called "The Search"! We had to travel around the world solving clues and cracking codes and, having a mathematical background, I saw how my analytical training helped me enormously towards winning.

Even though I will probably not continue in academia, I still think that the set of skills I have learned during my time as a mathematician is an invaluable asset



*"Maths really is the most beautiful of the sciences – in my opinion!"*

for continuing in pretty much any career path. And it really is the most beautiful of the sciences – in my opinion!